

**IECHYD A DIOGELWCH
CANLLAW PARATOI ASESIAID RISG:
EISTEDDFODAU A DIGWYDDIADAU**

**DYDDIAD CYHOEDDI
Medi 2021**

www.steddfota.org



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

CANLLAW PARATOI ASESIAID RISG:

Cyflwyniad

Ni ddylai lechyd a Diogelwch fod yn rhwystr rhag cynnal eisteddfod yn lleol. Drwy asesu unrhyw beryglon o flaen llaw, a chyflwyno cyfres o fesurau synhwyrol, yna dylai'ch digwyddiad fynd yn ei flaen yn ddiogel a diffwdan.

Fel cyflogwr, trefnydd neu unigolyn sydd â chyfrifoldeb dros drefnu digwyddiad, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i chi amddiffyn pob gweithiwr, ac eraill, rhag niwed. Felly, diben y canllaw hwn yw cynnig trosolwg cyffredinol o sut mae dod o hyd i beryglon wrth baratoi digwyddiad. Maent yn seiliedig ar gyhoeddiad **Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch / Health and Safety Executive** a cheir rhagor o fanylion cyffredol ar eu gwefan -

<https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/steps-needed-to-manage-risk.htm# Assess the risks>

Mae **Cymdeithas Eisteddfodau Cymru** wedi diweddarau templed safonol, mewn ymgynghoriad ag arbenigwyr lechyd a Diogelwch, er mwyn eich helpu i gwblhau eich asesiad risg.

PWYSLEISIR MAI CANLLAW YW'R FFURFLEN OHERWYDD MAE'N BOSIB BYDD FFACTORAU SY'N UNIGRYW I'CH SAFLE CHI Y BYDD ANGEN EU HYSTYRIED.

Yn ogystal, rydym wedi paratoi cyfres o symbolau y gallwch eu haddasu a'u hargraffu petai angen gosod arwyddion clir o amgylch eich digwyddiad.

O dan **Reoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999**, y lleiaf y disgwylir i chi ei wneud yw:

- nodi o flaen llaw beth allai achosi anaf neu salwch o ganlyniad i'ch gweithgarwch (peryglon)
- penderfynu pa mor debygol yw hi y gallai rhywun gael ei niweidio, a pha mor ddifrifol (y risg)
- gweithredu mesurau i ddileu'r perygl, neu os nad yw hyn yn bosibl, lleihau'r risg drwy weithredu mesurau priodol.

Dylid defnyddio'r Canllaw Paratoi Aseiad Risg ochr yn ochr â chanllawiau statudol cyfredol eraill sy'n cynnwys -

Amddiffyn Plant

Mae'n bwysig bod mesurau priodol yn eu lle i ddiogelu plant a phobl ifanc ac fe all hyn gynnwys llunio trefn i fonitro cwynion. Mae'n bosib y bydd angen sicrhau bod profion DBS (Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) yn eu lle yn ogystal â nifer o ofynion statudol eraill.

Am fanylion pellach ewch i wefan Gweithdrefnau Diogelu Cymru - <https://www.diogelu.cymru/>

Cadw Perfformwyr Ifanc yn Ddiogel

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i gyd-fynd â Rheoliadau 2015 ar gyfer perfformiadau plant mewn dramâu, sioeau ac ar lwyfan. Hefyd ar wefan y Llywodraeth ceir dogfennau sy'n amlinellu arferion gorau wrth gadw perfformwyr ifanc yn ddiogel.

<https://llyw.cymru/cadw-perfformwyr-ifanc-yn-ddiogel-trwyddedau-perfformio-ar-gyfer-plant>

Materion Iechyd Cyhoeddus

Mae gwybodaeth am COVID-19 a materion iechyd eraill yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n gyson wrth ymateb i'r pandemig. Fe all y canllawiau amrywio o sefydliad i sefydliad ac mae'n bosib bydd y disgwyliadau yn lleol fymryn yn wahanol i'r sefyllfa'n genedlaethol. Awgrymir eich bod yn ymglyfarwyddo â'r canllawiau diweddaraf yn ogystal ag ymgynghori gyda pherchnogion yr adeilad lle byddwch yn cynnal eich digwyddiad.

Ceir rhagor o fanylion ar safle Llywodraeth Cymru - <https://llyw.cymru/coronafeirws>

YSTYRIAETHAU ERAILL

Yswiriant Atebolrwydd (Public Liability)

Mae'n bwysig bod polisi yswiriant priodol yn ei le i gwrdd â chostau cyfreithiol ac unrhyw iawndal y gall godi os yw aelod o'r cyhoedd neu eich gwirfoddolwyr yn cael eu hanafu neu eu lladd; neu os yw eiddo rhywun yn cael ei golli neu ei ddifrodi o ganlyniad i'ch digwyddiad.

Wrth drefnu polisi mae'n bwysig bod yn glir beth yw terfyn eich cyfrifoldeb, er enghraifft mae'n debyg bydd gan lleoliad eich digwyddiad bolisi perthnasol, ond bydd angen gwirio hyn yn hytrach na chymryd yn ganiataol. Yn yr un modd mae'n bosib y bydd cwmni yswiriant yn disgwyl i berfformwyr neu ddarparwyr gwasanaethau (adnodau technegol, arlwyio a.y.b) i drefnu eu polisiau eu hunain.

Nid yw'r Gymdeithas wedi llunio rhestr fer o froceriaid annibynnol neu gwmnïau arbenigol, ond mae'r ddolen yma i gwmni Comparethemarket yn cynnig trosolwg o'r disgwyliadau –

https://www.comparethemarket.com/business-insurance/content/events/?AFFCLIE=FG50&SRC=FG50&cmpid=PC- -GOG- -SM- -GEN- -YKA1H6Pi7QdgQsG&gclid=CjwKCAjwvuGJBhB1EiwACU1AiSdUE8gpo67iB08WxqEyy3p2CvNNJY99s8sBuAjU0fsMexs4W23L_BoCUIYEQA_VD_BwE&gclsrc=aw.ds

Diogelwch a hylendid bwyd

Mae sicrhau bod bwydydd sy'n cael eu darparu mewn digwyddiad yn cydymffurfio yn unol â Deddf Hylendid Bwyd 2013. Ceir rhagor o fanylion ar wefan Asiantaeth Safonau Bwyd - <https://www.food.gov.uk/cy/canllawiau-defnyddiwr/cynllun-sgorio-hylendid-bwyd>

Offer trydanol cludadwy (Portable Appliance Test)

Er nad oes deddfwriaeth sy'n gorfodi bod rhaid trefnu prawf/tystysgrif PAT Test (Portable Appliance Test) ar gyfarpar trydanol, mae Rheoliadau Trydan yn y Gwaith 1989 yn nodi'n glir bod angen i bob darn o gyfarpar trydan fod yn ddiogel. Mae rhagor o fanylion ar safle HSE - <https://www.hse.gov.uk/electricity/faq-portable-appliance-testing.htm>

Yr amgylchedd a chynladwyedd

Mae gwarchod ein hamgylchedd yn llawer mwy arwyddocaol y dyddiau yma, ac felly wrth drefnu eich digwyddiad dylech hefyd anelu at gyflwyno mesurau ecogyfeillgar, sy'n cynnwys ail-gylchu ac ystyried y math o ddeunyddiau a ddefnyddir i weini bwyd er mwyn lleihau gwastraff cyffredinol. Mae sawl gŵyl bellach wedi mabwysiadu polisiau cynladwyedd - Gŵyl y Gelli (copi Saesneg yn unig) – <https://www.hayfestival.com/hay-on-earth> Llywodraeth Cymru (cynghorion ymarferol pellach) - <https://businesswales.gov.wales/tourism/cy/digwyddiadau-gwyliau-cynaliadwy>

MUDIADAU ERAILL A CHYNGOR PELLACH

Mae nifer o gymdeithasau a mudiadau eraill hefyd yn dilyn cyfundrefnau tebyg wrth baratoi asesiadau risg. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i weld enghreifftiau o'u polisiau wrth baratoi eich asesiad. Dyma ambell enghraifft:

Mentrau Iaith Cymru: Cyflwyniad Pwerbwynt gan Iwan Hywel, Arweinydd Tîm <https://mentrauiaith.cymru/downloads/archif-cyflwyniad-iechyd-a-diogelwch-alan-gwynant-2015/>

Eglwys Bresbyteraidd Cymru: Canllawiau yn ymwneud â chapeli, cynulleidfaoedd yn ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru. - <https://www.ebcpcw.cymru/cy/paratoi/>

Urdd Gobaith Cymru: Llawlyfr Arweinyddion. Nodiadau cynhwysfawr yn amlinellu arfer da y mudiad, gan gynnwys polisiau iechedd a diogelwch, diogelu plant a chyffredinol. http://www.urdd.cymru/files/3015/3728/0198/llawlyfr_arweinyddion_2018-2019_Fer_Medi_2018.pdf

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WcVA): Mae CgGC wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer sut i baratoi ar gyfer ailagor Canolfannau Cymunedol yng Nghymru yn cynnwys neuaddau pentref, capeli, ysgolion, canolfannau hamdden, theatrau - <https://wcva.cymru/cy/diweddariadau-ac-arweiniad-ar-covid-19/>

Bro 360/Prosiect Fory: Mae'r canllaw "Dod Ynghyd" yn helpu trefnwyr i feddwl o'r newydd am sut i ailgynnu bwrlwm bro - <https://bro.360.cymru/2021/dod-ynghyd/>

Y 5 CAM I DDIOGELU EICH DIGWYDDIAD: TROSOLWG

1 Adnabod y Peryglon

Yn cael ei ddiffinio fel: "rhywbeth sydd â'r potensial i achosi niwed"

2 Asesu'r Risgiau

Pwy all gael eu niweidio a sut, a beth yw'r canlyniad gwaethaf posibl?

3 Rheoli'r Risgiau

Gwerthuso'r risgiau. Mae'n well gan nifer raddio risg fel: Uchel, Canolig neu Isel, a chyflwyno mesurau i gael gwared â'r risg neu o leiaf i leihau'r risg.

**MAE POB RISG YN RISG.
Y FLAENORIAETH YW
CYFLWYNO MESURAU I'W GWAREDU**

4 Cofnodi

Cwblhau ffurflen asesiad risg

5 Adolygu

Diweddarau ac adolygu'r manylion yn ystod eich digwyddiad.

NI DDYLAI UNRHYW WEITHGARWCH GAEL EI GYNNAI SY’N CYNNWYS RISG ‘UCHEL’.

Cam 1: Adnabod y peryglon

Edrychwch o amgylch eich lleoliad gan feddwl am yr hyn a allai achosi niwed. Gelwir y rhain yn **beryglon**. Yn naturiol nid yw pob pennawd yn berthnasol i chi, ac nid yw’r rhestr yma’n gyflawn ond ystyriwch:

- Cyflwr cyffredinol yr adeilad gan gynnwys meysydd parcio
- Oes tystiolaeth o fesurau cynnal a chadw (tystysgrifau nwy, trydan, tân, yswiriant atebolrwydd)?
- Glanweithdra cyffredinol yn cynnwys tystysgrifau hylendid bwyd, mesurau lleihau risg COVID-19
- Risg oherwydd tân
- Gadael yn ddiogel mewn argyfwng
- Llithro, baglu neu syrthio
- Cemegau gan gynnwys tanwydd, mwg neu lwch (yn cynnwys nwy potel LPG)
- Rhannau o beiriannau sy’n symud
- Gosodiadau ac offer trydanol parhaol a chludadwy (portable)
- Codi a symud yn gorfforol
- Lefelau sŵn uchel
- Cerbydau ar y safle
- Gwresogi, golau, awyru
- Risg o arddangosfeydd (parhaol a dros dro)
- Dwyster torf/ rheoli torf
- Atyniadau arbennig
- Strwythurau dros dro (sgaffaldau, cyfarpar dal goleuadau a setiau)
- Gwastraff a sbwriel
- Oes peryglon o flinder o ganlyniad i weithio dan bwysau?

Mae’r HSE yn cynnig **RHESTR WIRIO** benodol hynod ddefnyddiol sy’n benodol wedi ei deilwra ar gyfer neuaddau pentref a chymunedol. Ewch i’w gwefan (dogfen Saesneg yn unig) -

<https://www.hse.gov.uk/voluntary/assets/docs/village-hall.pdf>

Cam 2: Asesu’r risgiau

Ar ôl nodi unrhyw beryglon, penderfynwch pa mor debygol yw hi y gallai rhywun gael ei niweidio, a pha mor ddifrifol y gall hyn fod.

Ystyriwch:

- Pwy allai gael ei niweidio, yn arbennig personau bregus – pobl ag anabledd, plant, yr henoed a merched beichiog?
- Beth am ddiogelwch y cyhoedd, stiwardiaid, gwirfoddolwyr, contractwyr, perfformwyr, arddangoswyr, trigolion lleol?
- Pa fesurau sydd gennych eisoes i reoli unrhyw risgiau?
- Pwy sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau diogelwch?
- Pryd mae angen cwblhau’r gwaith papur?
- Gyda phwy y byddwch chi’n rhannu copi o’r asesiad?

Cam 3: Rheoli'r risgiau

Mae'n bosib na ellir dileu pob risg ond mae angen i chi wneud popeth sy'n 'rhesymol ymarferol' i amddiffyn pobl rhag niwed.

Heb asesiad cynhwysfawr a mesurau i ddileu neu leihau'r risgiau, fe all y canlyniadau fod yn ddifrifol iawn gan arwain at danseilio enw da eich digwyddiad.

Canlyniad gwaethaf posibl = **MARWOLAETH**

Canlyniad canolig = **ANAF DIFRIFOL**

Canlyniad llai difrifol = **ANAF BYCHAN**

Canlyniad gorau = **DIM ANAF** = **Digwyddiad Llwyddiannus**

Gofynnwch i'ch hunain

- Oes modd cael gwared ar y perygl yn gyfan gwbl?
- Os nad yw hyn yn ymarferol, sut allwch reoli'r risgiau fel bod niwed yn annhebygol?
- Oes angen cyflwyno mesurau pellach i sicrhau diogelwch e.e. offer amddiffynnol personol a.y.b.
- Oes diffoddwyr tân wedi'u gosod?
- Oes rhwystrau wedi'u gosod i reoli torf?
- Ydy'r offer a'r cyfarpar yn cydymffurfio â Safonau Statudol?
- Beth yw cymwysterau eich swyddogion a gwirfoddolwyr?
- Oes cyfarwyddiadau neu hyfforddiant priodol wedi ei gynnig?

Cam 4: Cofnodi eich canfyddiadau

Mae'n hollbwysig eich bod yn cwblhau ffurflen asesiad risg o flaen llaw gan gofnodi:

- y peryglon (pethau a allai achosi niwed)
- pwy allai gael ei niweidio a sut
- beth rydych chi'n ei wneud i reoli'r risgiau

Fel nodwyd yn gynharach mae pob risg yn risg, ac felly'r hyn sy'n allweddol yw eich mesurau i ddileu'r perygl.

Mae nifer yn gwneud hyn drwy raddio pob risg fel rhai:

UCHEL **CANOLIG** **ISEL**

Nid yw'n ofynnol graddio risgiau; mae nifer yn ei gweld hi'n haws i gofnodi pob risg a nodi'r mesurau priodol i ddileu'r peryglon.

Cam 5: Adolygu

Mae'n allweddol i adolygu'r mesurau rheoli yn gyson yn ystod eich digwyddiad er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol. Mae'n bosib bydd angen ymateb i unrhyw risgiau newydd all godi o ganlyniad i newidiadau funud olaf.

Diweddarwch eich ffurflen asesiad risg gydag unrhyw newidiadau a wnewch. Nid yn unig bydd yn gofnod gwerthfawr, ond hefyd fe allwch ei defnyddio fel rhan o'ch tystiolaeth petai anffawd yn digwydd yn ystod eich digwyddiad.

MAE CYDYMFFURFIO Â SAFONAU IECHYD A DIOGELWCH YN GOLYGU DILEU NEU GADW POB RISG MOR ISEL Â PHOSIBL.